

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# PRENTISIAETHAU. DEWIS DOETH.

Canllaw i Ddysgwyr.

Prentisiaethau
Apprenticeships

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

978-1-80038-212-1





# BETH YW PRENTISIAETH?

**Mae prentisiaethau yng Nghymru ar gael i unrhyw un dros 16 oed. Maen nhw'n cyfuno astudiaethau gyda hyfforddiant ymarferol mewn swydd. Byddi di'n cael profiad gwaith ymarferol, yn dysgu sgiliau newydd ac yn cael cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae prentisiaethau yn rhoi cyfle i ti ennill cyflog wrth ddysgu.**

Fel prentis, byddi di'n:

- gweithio gyda staff profiadol
- datblygu sgiliau penodol i'r swydd
- ennill cyflog a chael cyflog gwyliau
- cael amser i astudio (diwrnod yr wythnos fel arfer)
- rhoi hwb i dy botensial o ran ennill cyflog
- cael pecyn cymorth llawn, beth bynnag fo dy anghenion
- cael cyfle i wneud cynnydd clir drwy lefelau'r brentisiaeth



# PAM DEWIS PRENTISIAETH?

Gwna ddewis doeth a gwneud prentisiaeth.

Fel prentis, byddi di'n cael parch ac annibyniaeth, ac yn ennill cyflog tra byddi di'n astudio gyda choleg, prifysgol neu ddarparwr hyfforddiant dibynadwy.

Boed y cwmnïau'n rhai rhyngwladol neu leol, mae cyflogwyr yn chwilio am staff sydd â'r sgiliau i ddiwallu anghenion eu busnes, yn enwedig yn y sector STEM.

**Mae prentisiaethau ar gael mewn amrywiaeth o swyddi, ac maen nhw'n rhoi cyfle i ti gael profiad ymarferol a datblygu'r sgiliau angenrheidiol er mwyn symud ymlaen yn y maes o dy ddewis.**



Does dim ots os wyt ti wedi gadael yr ysgol heb lawer o gymwysterau, wedi cael tomen o gymwysterau TGAU, newydd adael y coleg, neu wedi graddio. Mae lefel prentisiaeth addas i bob unigolyn.



| **Prentisiaeth/Lefel** | **Gweithio neu Astudio tuag at gymwysterau cydnabyddedig yn y diwydiant** |
|---|---|
| Prentisiaeth Sylfaen - Lefel 2 | 5 TGAU / NVQ Lefel 2 |
| Prentisiaeth - Lefel 3 | 2 Safon Uwch / NVQ Lefel 3 |
| Prentisiaeth Uwch - Lefel 4/5 | HNC / HND / Gradd Sylfaen |
| Prentisiaeth Gradd - Lefel 6 | Gradd Baglor Lefel 5 / NVQ Lefel 4 |

Mae prentisiaethau ar gael yn Gymraeg ac yn ddwyieithog, sy'n golygu dy fod yn gallu hyfforddi a dysgu yn yr iaith o dy ddewis.

Mae prentisiaethau ar gael i bobl o bob gallu. Bydd dy gyflogwr yn gweithio gyda ti i wneud yn siŵr dy fod yn cael cymorth pwrpasol sy'n diwallu dy anghenion, er mwyn i ti allu gweithio'n hyderus.



# SECTORAU I'W HYSTYRIED

- Amaethyddiaeth a'r Amgylchedd
- Arlwyo a Lletygarwch
- Busnes a Rheolaeth
- Bwyd a Diod
- Diwylliant, Dylunio a'r Cyfryngau
- Gwallt a Harddwch
- Gwasanaethau Adeiladu
- Gwasanaethau Addysg a Gwybodaeth
- Gwasanaethau Amddiffynnol
- Gwasanaethau Cyfreithiol ac Ariannol
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Gwasanaethau Eiddo
- Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol
- Gwasanaethau Gofal Plant
- Gwasanaethau Gofal Iechyd
- Gweithgynhyrchu Uwch a Deunyddiau
- Gwyddorau Bywyd
- Manwerthu
- Moduron, Cludiant a Logisteg
- Peirianneg
- Technoleg Ddigidol
- Teithio, Twristiaeth a Hamdden
- Ynni



# SUT I GOFRESTRU?



**Os wyt ti wedi cael dy ysbrydoli gan y cyfle i ennill cyflog wrth ddysgu, gwna ddewis doeth a mynd i gael mwy o wybodaeth neu chwilio am brentisiaeth addas i ti:**

Cer i **llyw.cymru/prentisiaethau-dewis-doeth**
Neu ffonia **0800 028 4844.**

Yn y cyfamser, os wyt ti'n teimlo nad wyt ti'n hollol barod am brentisiaeth, cer i **cymrungweithio.llyw.cymru** i gael gwybod sut mae dod o hyd i gefnogaeth briodol, dysgu sgiliau newydd, a chael cyngor ar waith a llunio CV.

Gall cyflogwyr yng Nghymru ddysgu mwy am fanteision recriwtio Prentis drwy fynd i **businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglenni-sgiliau-hyfforddiant/prentisiaethau**
Neu drwy ffonio **03000 6 03000.**